



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

TAR Uwchradd Profiad Pontio PAP2 2019



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

Cyflwyniad

Mae'r profiad pontio olaf ar gyfer myfyrwyr TAR Uwchradd wedi ei gynllunio i helpu myfyrwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae ysgolion ac athrawon yn defnyddio asesu (yn ei ystyr ehangaf) i gynllunio ar gyfer cefnogi cynnydd disgyblion.

Mae'r llawlyfr yma yn cynnig sgaffald i ysgolion arweiniol gynllunio eu darpariaeth. Mae darlleniadau allweddol wedi eu nodi a dewis o weithgareddau yn cael eu cynnig. Gall hyn gynnwys arsylwi gwersi os yw ysgolion yn gweld hynny'n addas. Serch hynny efallai y byddai gweithgareddau eraill megis sgysiau strwythuredig am waith disgyblion yn fwy defnyddiol o ystyried cyfyngder yr amser. Mae croeso i ysgolion addasu y ddarpariaeth i gyd-fynd gyda chyd-destun lleol.

Fel llynedd, CA4 fydd ffocws y cyfnod 'cwrdd' er mwyn sicrhau cysondeb. Serch hynny mae'r cyfnod 'profi' yn gallu digwydd gydag unrhyw grŵp blwyddyn yn ystod PAP2.

Os oes cwestiynau, croeso i chi gysylltu gyda Dave Stacey: david.stacey@uwtsd.ac.uk

Ffocws ar gyfer y Gweithgarwch Pontio

Sicrhau Cynnydd Disgyblion trwy Ddynodi'r Camau Nesaf ar gyfer Dysgu ac Addysgu

Amcanion

- Darparu cyfleoedd wedi'u sgaffaldio i athrawon dan hyfforddiant roi damcaniaeth ar waith mewn arfer proffesiynol;
- Datblygu sgiliau wrth bennu'r camau dysgu ac addysgu nesaf i sicrhau cynnydd disgyblion yn y dosbarth;
- Rhannu profiadau mewn lleoliad proffesiynol gyda chefnogaeth athrawon profiadol.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales



Beth yw Pontio?

Mae ein gweledigaeth newydd ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon yn cyfuno'r wybodaeth ymarferol a damcaniaethol sydd eu hangen ar gyfer addysgu ardderchog ac ni fernir bellach fod rhaglenni wedi'u lleoli "yn y brifysgol" neu "yn yr ysgol". Un o'r ffyrdd y mae hyn yn digwydd yw trwy weithgareddau pontio lle mae athrawon dan hyfforddiant, mentoriaid a thiwtoriaid prifysgol yn dod at ei gilydd i brofi cyfres o weithgareddau a gynhelir gan Ysgol Arweiniol ac a gyflwynir ar y cyd gan ysgolion partneriaeth.

O fewn y pontio mae gofyn i'r athrawon dan hyfforddiant gymryd rhan mewn tri cham o arfer cymhwysol lle mae gwybodaeth ymarferol a damcaniaethol yn cael eu cyfuno ac arfer personol yn cael ei drawsffurfio – gweler Ffig 1.



Ffig 1 Camau Arfer Cymhwysol

Gellir addasu'r camau i gyd-destunau gwahanol ond yn fras maent yn ymwneud â'r canlynol:

- *Cwrdd â'r syniadau* naill ai yn y brifysgol, yr ysgol neu'r gymuned;
- *Profi'r syniadau* yn y dosbarth trwy arfer cymhwysol;
- *Rhannu* a gwerthuso syniadau mewn cyd-destun proffesiynol gyda chymheiriaid a'r gymuned addysgu.

Yn dilyn pob cam ceir cyfnod o feddwl beirniadol sy'n canolbwyntio ar ffocws penodol ac sy'n cynnwys y tîm ehangach o amgylch yr athro dan hyfforddiant. Er enghraifft:

- Yn dilyn y cam *cwrdd*, cynorthwyr myfyrwyr i ymchwilio i'r sylfaen dystiolaeth gyfredol ar gyfer syniad neu gysyniad a chynllunio i'w brofi;

- Yn dilyn y cam *profi*, bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn adfyfrio grŵp ac unigol, gan adfyfrio wrth weithredu ac ar weithredu;
- Yn dilyn y cam *rhannu*, bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn *gwerthusiad* dan arweiniad cymheiriaid a chyda chymorth athrawon sy'n cynnwys ystyriaeth feirniadol o'r sylfaen dystiolaeth newydd, a chynllunio ar gyfer y camau nesaf ar gyfer gwelliant personol¹.

Trwy gymryd rhan mewn proses gylchol o weithgareddau pontio trwy gydol y rhaglen AGA bydd athrawon dan hyfforddiant yn mynd trwy'r **trawsnewid** sydd ei angen yn natblygiad yr athro proffesiynol.

Beth sydd ei angen?

Mae'r gweithgareddau pontio wedi'u datblygu ar y cyd a lluniwyd y cynnwys i gynnig profiad teg ac o ansawdd uchel i fyfyrwyr ôl-raddedig. Fodd bynnag, mae hyblygrwydd yn y dull ar yr amod bod yr egwyddorion cwrdd, profi, rhannu'n cael eu cynnwys a bod yr athrawon dan hyfforddiant yn cael cyfle i ddynodi targedau personol mewn deialog broffesiynol gydag eraill.

Mae'r tablau canlynol yn rhoi amlinelliad manwl o'r gweithgarwch pontio ynghyd â rhai awgrymiadau ynghylch ffyrdd o gyflwyno'r cynnwys.

¹ Schön, D. (1983). *The Reflective Practitioner: How professionals think in action*. London: Temple Smith



TAR Uwchradd - Pontio

Diwrnod/ dyddiad	Gweithgarwch Pontio Gofynnol	Cynnwys a Awgrymir	Adnoddau a Awgrymir
Cyn pontio	Darllen	Darlleniadau allweddol a dewisol i fyfyrwyr	Didau, D (2014) Why AfL might be wrong, and what to do about it. <i>The Learning Spy</i>. Available at: https://learningspy.co.uk/myths/afl-might-wrong/ (accessed: 18.03.19) Wiliam, D (2014) Dylan Wiliam's defence of formative assessment. <i>The Learning Spy</i>. Available at: https://learningspy.co.uk/assessment/dylan-wiliams-defence-formative-assessment-2/ (accessed: 18.03.19) Wiliam, D (2011) Embedded Formative Assessment. Bloomington: Solution Tree Press (Chapter 4)
Diwrnod Cwrdd – Ysgol Arweiniol (28.3.19 or 29.3.19) Sesiwn 1	<i>Nb – The meet phase will focus on KS4</i> Cyflwyno Seminar Ysgol Arweiniol: Teitl: Sicrhau Cynnydd Disgyblion Amser: 45 munud ac amser i drafod.	Seminar i gynnwys: • Sut mae data dydd i ddydd yn cyfrannu at ac yn llywio perfformiad ysgol gyfan; • Mathau o Asesu ac Adrodd • Dadansoddi cwestiynau – bwydo ymlaen • Polisiau priodol.	

Diwrnod/ dyddiad	Gweithgarwch Pontio Gofynnol	Cynnwys a Awgrymir	Adnoddau a Awgrymir
Sesiwn 2.	Darparu cyfleoedd lle gall athrawon dan hyfforddiant gwrdd ag agwedd ar gynnydd disgyblion yn y dosbarth o fewn adrannau pwnc.	Gall hyn gynnwys: - Arsylwi ar addysgu gan nodi unrhyw strategaethau sgaffaldio; - Trafod camau dilyniant gyda'r athro pwnc a/neu'r disgyblion; - Edrych ar adborth effeithiol fel asesiad ar gyfer strategaeth ddysgu;	Samplau o ddeunyddiau asesu a chynlluniau marcio CA4.
Sesiwn 3.	Cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i adolygu samplau o waith, nodi cyrhaeddiad a thrafod y camau addysgu nesaf i sicrhau cynnydd.	Gallai hyn gael ei wneud gan athro profiadol yn modelu'r broses ac yn defnyddio dogfennau'r cwricwlwm i nodi'r camau nesaf, ac i ddilyn byddai athrawon dan hyfforddiant yn gweithio mewn parau ar wahanol ddarnau o waith. Trafodaeth gan y grŵp cyfan. .	
Diwedd y Cam Cwrdd	Cynorthwyo i adfyfrio ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y dydd a nodi targedau personol ar gyfer y cam profi yn yr ysgol leoliad.	Gallai hyn fod trwy drafodaeth anffurfiol. Dylai targedau personol fod yn realistig ac â ffocws iddynt – e.e. cynllunio i ddefnyddio 1 strategaeth Addysgu ar gyfer Dysgu neu ymyrraeth addysgegol gyda'r cam nesaf mewn golwg.	
Cam Profi – Ysgol Leoliad	Rhannu profiad ac adfyfyrdod yr athro dan hyfforddiant.	Gallai hyn gynnwys trafodaeth fer o'r targedau personol - gan osod y cyd-destun ar gyfer yr ysgol	

Diwrnod/ dyddiad	Gweithgarwch Pontio Gofynnol	Cynnwys a Awgrymir	Adnoddau a Awgrymir
PROFI - cynllun	Cynorthwyo'r athro dan hyfforddiant i ddynodi dosbarth ffocws. Gallai hyn fod yng Nghyfnod Allweddol 3 neu 4 Sgaffaldio/cynorthwyo'r dadansoddi o gyrhaeddiad cyfredol y grŵp/dosbarth ffocws a nodi'r camau addysgu nesaf. Rhoi amser i'r athro dan hyfforddiant ymgymryd ag unrhyw ymchwil perthnasol sy'n codi o'r dadansoddi. Cynorthwyo/rhoi amser i'r athro dan hyfforddiant gynllunio gwers wahaniaethol sy'n mynd i'r afael yn glir â'r targedau a nodwyd yn y dadansoddi.	bartner, a thrafodaeth o'r cynlluniau ar gyfer y cam profi. Dylai hyn gynnwys disgyblion sydd ag amrywiaeth o anghenion dysgu. Dylai'r gweithgaredd hwn ddarparu'r data sylfaenol a fydd yn arwain y cynllunio ar gyfer y sesiwn a addysgir. Gallai hyn gynnwys unrhyw awgrymiadau priodol gan staff yr ysgol neu'r brifysgol e.e. canlyniadau dadansoddi cwestiynau Gallai hyn gynnwys adolygu drafft cyntaf, gwneud awgrymiadau ynglŷn ag adnoddau a sicrhau cryfder y dulliau Asesu ar gyfer Dysgu.	Adroddiad adborth ffurfiannol (y wefan)
Profi – addysgu ac asesu	Rhoi amser i'r athro dan hyfforddiant addysgu'r wers a gynlluniwyd; Arsylwi ar y wers hon a rhoi adborth ffurfiannol yn ymwneud â'r targedau sicrhau dilyniant. I gynnig amser penodol i'r darpar athro baratoi cyflwyniad 15 munud / cwestiwn ac ateb yn adfyfrio ar eu profiad. Cynllunio ar gyfer Dilyniant – paratoi: Cynllunio ar gyfer Dilyniant – effaith.	Dylid addysgu'r sesiwn i'r grŵp ffocws neu'r dosbarth cyfan fel y bo'n briodol. Dylai adborth ganolbwyntio ar y modd y gwnaeth yr addysgu sicrhau cynnydd i'r disgyblion yn y grŵp ffocws. Bydd y cyflwyniadau yn ystod y 'Diwrnod Rhannu' yn yr ysgol arweiniol.	

Diwrnod/ dyddiad	Gweithgarwch Pontio Gofynnol	Cynnwys a Awgrymir	Adnoddau a Awgrymir
		Dylai gynnwys cyfeiriad at ddatblygu’u syniadau, yr effaith a welwyd ar ddysgwyr, y gwersi a ddysgwyd ac adfyfrio ar yr adborth ffurfiannol a dderbyniwyd. Gallai hyn gynnwys deunyddiau gweledol ac enghreifftiau o adnoddau neu waith a gynhyrchwyd.	
Diwrnod Rhannu 24.5.19 Rhannu – adfyfrio a gwerthuso	I gynnig gofod/amser I ddarpar fyfyrwyr gyflwyno am tua 10 munud lle byddan nhw yn rhannu eu profiadau mewn sefyllfa broffesiynol. Sesiwn gwestiynau ac atebion I ddilyn y cyflwyniadau. Arwain sgwrs gloi sy’n tynnu t ei gilydd y prif syniadau sydd wedi codi o’r cyflwyniadau a thrafod sut gellid datblygu rhain ymhellach yn ystod y flwyddyn ANG. Cwblhau gwerthusiad ar-lein o’r gweithgarwch pontio.	Fe ddylai’r diwrnod yma gynnwys amserlen o gyflwyniadau unigol a chwestiynau tua 15 munud yr un Er mwyn cynyddu’r effaith ar arfer athrawon dylai’r athrawon a thiwtoriaid y Brifysgol annog sgwrs sy’n adfyfrio’n feirniadol ar eu canfyddiadau gan gymharu gyda’u darlleniadau academaidd a phrofiadau eraill. Gofynnir am werthusiadau gan fyfyrwyr dan hyfforddiant, staff ysgolion a thiwtoriaid y Brifysgol.	Adnoddau’r cyflwyniad (a ddarperir gan yr athrawon dan hyfforddiant) Gwerthusiad ar-lein (dolenni i ddilyn)